# POLISI TREULIAU LLYWODRAETHWYR

Lluniwyd y polisi yma yn unol â: Rheoliadau Lwfansau llywodraethwyr (Cymru) 2005

**ENWI, CYCHWYN A CHYMHWYSO**

1 (i) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Hydref 2005.

(ii) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**YSGOLION SYDD Â CHYLLIDEBAU DIRPRWYEDIG**

4 (i) Caiff corf llywodraethu ysgol a gynhelir sydd â chyllideb ddirprwyedig wneud taliadau ar ffurf lwfansau yn unol â'r rheoliad hwn i aelod o'r corf llywodraethu hwnnw neu o unrhyw bwyllgor o'r corf llywodraethu hwnnw.

(ii) Rhaid i daliadau a wneir o dan baragraff (1) fod yn unol â darpariaethau cynllun a waned gan y corf llywodraethu at ddibenion y Rheoliadau hyn ac ni chaiff cynllun o'r fath wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas ag aelodau o'r corf llywodraethu ac aelodau o bwyllgorau'r corf llywodraethu nac o ran categorïau gwahanol o lywodraethwr neu aelod pwyllgor.

(iii) Ni cheir gwneud taliadau dan baragraff (1) ond o ran gwariant oedd yn angenrheidiol ei dynnu gan aelod o'r corf llywodraethu at ddibenion ei alluogi i gyflawni ei ddyletswydd fel llywodraethwr neu fel aelod o bwyllgor o'r corf llywodraethu.

(iv) Yn ddarostyngedig i reoliad 7, rhaid i daliadau o dan baragraff (1) fod ar gyfradd a bennir gan y corf llywodraethu a'u gwneud pan ddarperir derbynneb am y swm perthnasol

**TALIADAU TEITHIO A CHYNHALIAETH**

7 Ni chaiff unrhyw daliadau o dan Reoliadau hyn ar gyfer treuliau theithio a chynhaliaeth fod yn uwch na chyfraddau a bennir o bryd i'w gilydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn rheoliadau o dan adran 100 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (1).

**Fe fydd Lywodraethwr yn medru hawlio costau theithio yn unig o gyllid yr ysgol os bydd yr achos yn codi (teithio i sesiynau hyfforddiant yn cael ei hawlio trwy'r Sir). Fe fydd taliad/milltir yn cydymffurfio gyda phwynt 7 uchod sef 45c y filltir (graddfa CCC)**

| | |
|---|---|
| Diweddarwyd: | |
| Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol: | |
| Llofnod y Cadeirydd: | |